Y Blaidd a'r Ci

Cryfder / Parchu'r hyn sydd gennym / Cadernid

Bu'r blaidd yn hela drwy'r nos.
"Mae hi wedi bod yn noson ddifrifol iawn" meddai wrtho'i hun. Dim byd yn unman. Roedd bron â llwgu. Cofiodd am y fferm i lawr yn y dyffryn. Carlamodd dros y cloddiau nes cyrraedd y fferm. Mae'n bur debyg y byddai hwyaden, iâr neu geiliog llond ei groen yn llechu yn y llwyni. Ond, na, doedd dim anifail i'w weld na'i arogli yn unman. Dim ond un sef y ci defaid. Dechreuodd y ci gyfarth ac udo. Ond cyn iddo ddeffro'r ffermwr rhedodd y blaidd tuag at y ci. "Sut wyt ti rhen gi defaid?" gofynnodd y blaidd iddo. Doedd y ci defaid erioed wedi gweld y blaidd o'r blaen. Roedd yn amlwg fod y blaidd eisiau sgwrsio efo'r ci defaid.
"Wyt ti'n edrych yn dda rhen gi" meddai'r blaidd.
"Wel, mi rydw i yn edrych yn dda. Cofia di, mi rydw i yn cael lle da yma. Rydw i'n cael digon i'w fwyta. Pryd o fwyd maethlon ddwy waith y dydd. A weithiau bydd gwraig y ffermwr yn gadael sborion i mi gyda'r nos."
"Yn wir!" meddai'r blaidd.
"Ond gwranda," meddai'r ci, "pan fydda i wedi blino mi fydda i yn cael mynd i'r gegin ar y glustog fawr.Yno y byddai'n cysgu pan fydd hi'n oer yn y gaeaf."
Meddyliodd y blaidd..." a finna yn gorfod cysgu yng nghysgod y graig neithiwr."
Aeth y ci defaid ymlaen i ddweud ei stori.
"Mi rydw i'n cael pob chwarae teg gan y ffermwr a'i wraig. Fe fydd hi'n brwsio fy nghot deirgwaith yr wythnos. Mi fyddai'n cael mynd am dro i fyny'r mynyddoedd unwaith yr wythnos efo'r ffermwr."
Torrodd y blaidd ar ei draws.
"Mi fuaswn i yn hoffi bod yn gi," meddai, "beth am i mi fynd i weld y ffermwr?"
Aeth yr hen gi yn ddistaw.

"Mae'n well i mi aros tan y bore. Fedra i ddim dod yn rhydd o'r gadwyn yma tan y bore. Bryd hynny bydd y ffermwr yn fy ngollwng yn rhydd."
Edrychodd y blaidd ar y gadwyn drom a'r goler oedd am wddw'r ci.
Gofynnodd i'r ci, "Pam mae yna goler am dy wddw di?"
Atebodd y ci, "Mae'r goler yma'n dweud mai'r ffermwr piau fi. Mae enw'r ffermwr a'i gyfeiriad ar y goler. Rwy'n credu bod ei rif ffôn ar y goler hefyd."
Trodd y blaidd ar ei sawdl a dechreuodd gerdded at giat y fferm.
"Be sy'n bod?" gofynnodd y ci, "dwyt ti ddim eisiau byw ar y fferm?"
"Na'n wir," meddai'r blaidd. "Digonedd o fwyd, cael mynd i mewn i'r ffermdy, cael mynd am dro bob hyn a hyn, cael brwsio'n nghot deirgwaith yr wythnos. Efallai'n wir. Ond mi ydw i'n rhydd. Mi gai i fynd i'r fan a fynnaf. Does dim rhaid i mi ddisgwyl wrth y ffermwr a'i wraig. Rhen gi fe gei di gadw dy fferm."
Rhedodd y blaidd yn gyflym dros y cloddiau. Efallai ei fod eisiau bwyd ond roedd yn rhydd - yn rhydd i fynd i ble bynnag oedd eisiau mynd. Aeth y ci i mewn i'w gwt yn ddistaw bach a chysgodd tan y bore.

O Dduw, pan fydda i'n anhapus fy myd weithiau, helpa fi i sylweddoli gymaint sydd gen i mewn difri. Amen.

- Sut fywyd oedd bywyd y ci?
- Beth oedd yn gwneud bywyd y blaidd yn wahanol i fywyd y ci?
- Pa fath o fywyd fyddech chi'n hoffi ei gael?